# Cofnodion – Cyfarfod o'r Grŵp Ecosystem Glaswelltir a Gweundir – Tachwedd 2011

**Yn Bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| Jan Sherry | JS | CCGC |
| Alys Edwards | AE | WBP |
| Stuart Smith | SS | CCGC |
| Helen Buckingham | HB | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| Charles Morgan | CM | PONT |
| Kathleen Carroll | KC | WAG |

**Ymddiheuriadau:**

| | | |
|---|---|---|
| Dave Lamacraft | DL | RSPB |
| Julian Jones | JJ | WTW |
| Rebecca Price | RP | GWT |
| Geraint Jones | GJ | PCNPA |
| Caroline Wilson | CW | SNPA |
| Jane Hodges | JH | PCNPA |

| Rhif | Gweithredu | Pwy | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Diweddariad ar Gyllid** | | | |
| 1 | Rhoddodd HB ddiweddariad i'r rhai oedd yn bresennol ar y Cynllun Grant ar gyfer Gwydnwch Ecosystemau. Disgwylir cyhoeddiad gan y Gweinidog yn fuan ar ba brosiectau a fu'n llwyddiannus. | HB | Cyhoeddiad gan y Gweinidog ynghylch y prosiectau llwyddiannus ar 03.11.11. Mae'r testun llawn ar gael yma http://wales.gov.uk/newsroom/environmentandcountryside/2011/111104projects/?lang=en&ts=1 |
| | Cytunwyd y dylid eiriol dros gael cyllideb barhaol (flynyddol) drwy WEL. HB i drafod y cais am ffrwd grant barhaol ar gyfer bioamrywiaeth gyda chynrychiolydd o WEL. | HB | Wedi'i gwblhau – HB wedi trafod gyda Ruth Williams/Chris Lambert. |
| **Ymweliadau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAP)** | | | |

| Rhif | Gweithredu | Pwy | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| **2** | **Cyfarfod LBAP Gogledd Cymru i ganolbwyntio ar ddatblygu prosiectau i sicrhau cyllid i'r dyfodol, 16 Ebrill 2012. Gofynnir i gynrychiolwyr fynychu ar ran y LGHEG. HB/AE i drafod gydag Anne Butler**<br><br>**AE i ddosbarthu gwybodaeth bellach pan fydd ar gael.** | **HB/AE**<br><br>**AE** | **Cynhelir y cyfarfod yn adeiladau Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno LL31 9RZ**. |
| **Diweddariad ar Fapio Blaenoriaeth** | | | |
| 3 | Dywedodd JS wrth y grŵp fod y LGHEG wedi cwblhau'r broses mapio blaenoriaeth, ac y bydd angen adolygu'r mapiau hyn yn flynyddol. Bydd prosiectau'n cael eu datblygu drwy ddefnyddio'r meysydd blaenoriaeth fel ffocws, ac yn edrych ar grwpiau sydd heb dderbyn cyllid eto, fel: Sir Benfro (cynigion prosiectau bach i orllewin Cymru); Gŵyr – prosiect HLF (pori arfordirol); Gwydyr – FCW (tynnu coed). Trafod y cyfyngiadau yng Ngwydyr gyda'r staff rhanbarthol.<br><br>Mae angen ail-ddosbarthu ffeiliau i'r awdurdodau lleol. JS i ail-anfon y jpegs<br><br>AE i ychwanegu adolygiad blynyddol o Fapiau LGHEG at ddogfen y Cynllun Gwaith.<br><br>AE i ofyn am roi tudalen ar fapio blaenoriaeth ar wefan y WBP. | JS<br><br>JS<br><br>AE<br><br>AE | Wedi'i gwblhau |
| **4** | **Cytunwyd y byddai'n beth da datblygu briffiau prosiect wedi eu costio i'w defnyddio ar gyfer ffrydiau cyllid yn y dyfodol, fel Grantiau Bioamrywiaeth Amgylchedd** | **CM** | **CM i gwblhau'r templed ynghyd ag arweiniad erbyn 31/12/11.** |

| Rhif | Gweithredu | Pwy | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| | **Cymru, WREN (grantiau untro hyd at £75k)**<br><br>**CM i ddatblygu templedi prosiect, yn ymgorffori meini prawf ar wydnwch ecosystemau, ac yn defnyddio canllawiau costio amaethyddol i roi amcangostau datblygu prosiectau.**<br><br>**AE i'w dosbarthu i'r partneriaethau gweithredol am eu mewnbwn pan fyddant ar gael.**<br><br>**Ymchwilio i'r posibilrwydd o Swydd Gyllid i'r WBP – gallai Tracey ymchwilio i hyn.** | **CM**<br><br>**AE**<br><br>**AE i ofyn i TL ymchwilio i hyn** | |
| **Aelodaeth o'r Grŵp** | | | |
| 5 | Mae Tracey Lovering wedi gofyn am gadarnhad o bwy sy'n aelod o grŵp Cymru'r WBP. AE i adolygu aelodaeth y grŵp a cheisio llenwi unrhyw fylchau.<br><br>AE i wahodd aelod newydd o staff o Bumblebee Conservation Trust i ymuno â'r grŵp. | AE<br><br>AE | Wedi'i gwblhau – adborth wedi'i roi i TL.<br><br>Wedi'i gwblhau, Swyddog BBCT newydd wedi'i benodi a'i ychwanegu at y rhestr ddosbarthu. |
| **Adborth o Gyfarfodydd Eraill** | | | |
| **6** | **Diweddarodd HB y grŵp ar gyfarfod diweddar o Ymddiriedolaeth Glaswelltir y DU a gynhaliwyd yn Ninefwr. Bydd papurau ar gael cyn bo hir (cyn y Nadolig). HB i'w dosbarthu pan fyddant ar gael.**<br><br>**Nodwyd fod diffyg cyfathrebu rhwng y gwledydd ar faterion gweundir ar hyn o bryd a bod angen sefydlu fforwm gweundir ar gyfer y DU gyda ffocws ehangach na dim ond bioamrywiaeth (NEF).** | **HB**<br><br>**JS** | |

| Rhif | Gweithredu | Pwy | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **7** | Rhoddodd JS ddiweddariad ar gyfarfod y Rheoliadau ar Losgi Grug a Glaswellt. JS i ofyn i Jim L drafod y broblem tân ar dir FCW gyda'r Grŵp Coetiroedd, CM i wneud yr un fath ar gyfer yr ucheldir. | JS | |
| **Cynllun Gwaith y LGHEG** | | | |
| **8** | **AE i ddiweddaru'r cynllun gwaith gyda chyfarfodydd y LGHEG a chyfarfodydd is-grwpiau sydd i'w cynnal yn y dyfodol.**<br><br>**AE i ychwanegu diweddariad ar faterion polisi (blynyddol) a'r diweddariadau ychwanegol a drafodwyd, a'u dosbarthu am sylwadau.**<br><br>**SS /JS i edrych ar hen gynlluniau ar gyfer y Deyrnas Unedig a nodi unrhyw weithredu ar gyfer glaswelltir Calaminaraidd. AE i ychwanegu Calaminaraidd at y cynllun gwaith.** | **AE**<br><br>**AE**<br><br>**SS/JS/AE** | |
| **Gwaith Integreiddio Rhywogaethau / Cynefinoedd** | | | |
| 9 | Cyflwynodd JS y grŵp i'r gwaith ar integreiddio rhywogaethau / cynefinoedd a wnaed gan y Grŵp Arbenigol Rhywogaethau (SEG).<br><br>Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar nodi mathau o gynefin, y rhywogaethau cysylltiedig a chanllawiau ar reoli'r cynefin, ar sail gwaith a wnaed gan Natural England, http://www.naturalengland.org.uk/Images/Priority%20species%20in%20priority%20habitats_England2_tcm6-16020.xls , | JS/CM | |

| Rhif | Gweithredu | Pwy | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| | er mwyn nodi rhywogaethau dosbarthiad eang a dosbarthiad nid eang, a grwpiau rhywogaeth yn ôl eu hamodau arbenigol. JS a CM i gael cyfarfod cychwynnol i adolygu dull Natural England.<br><br>Ar hyn o bryd dim ond rhywogaethau s42 y mae’r gwaith hwn yn ei gynnwys. Fodd bynnag, unwaith y nodir amodau arbenigol, gellir yna eu defnyddio i nodi rhywogaethau eraill sy’n defnyddio’r amodau hynny. Mae’n bwysig penderfynu beth yw’r rhywogaethau o ran dosbarthiad – gweithio gyda TD a DL a thrafod gyda’r grŵp.<br><br>AE/JS i ofyn i SB am restr o gasgliadau rhywogaeth yn yr ucheldir a gwirio i weld ai dyma’r fersiwn gywir.<br>AE i drefnu cyfarfod o’r is-grŵp (TD/DL/JS) i drafod hyn.<br><br>Hyd yma mae’r gwaith hwn wedi’i gwblhau ar gyfer gweundir ucheldir, gweundir iseldir a choetir. Mae Pete Frost yn awyddus i symud ymlaen ar y gwaith gwlyptir. Credai’r grŵp coetir fod y gwaith hwn yn eithriadol ddefnyddiol ac maent wedi cynhyrchu canllawiau ar ei ddefnyddio.<br><br>AE i gysylltu â Chris Tucker ac i ofyn am gopi o’r canllawiau – a’u dosbarthu i’r grŵp. | AE<br><br>AE | |
| **10** | **Dywedodd HB wrth y grŵp fod gan Paul Evans (BugLife) ddiddordeb mewn gweithio â’r LGHEG i symud ymlaen gyda’r gwaith o integreiddio** | **HB** | |

| Rhif | Gweithredu | Pwy | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| | **rhywogaethau ar gyfer creaduriaid di-asgwrn cefn. HB i ofyn i Paul gysylltu â JS/JL i sicrhau bod y gwaith hwn yn bwydo i mewn i'r mapio blaenoriaeth.** | | |
| **Adolygiad o'r Bylchau mewn Tystiolaeth** | | | |
| 11 | Cytunodd y grŵp y byddai'n ddefnyddiol cael syniad o'r gofynion amser ar gyfer pob lefel h.y. traethawd hir/MSc/PhD ayb, er mwyn goleuo'r gwaith hwn. Awgrymwyd nifer o brosiectau posibl ac AE i ddiweddaru'r daenlen a'i dosbarthu ar gyfer sylwadau.<br><br>Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol ennill dealltwriaeth o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Defra, a sicrhau bod unrhyw fylchau'n cael eu nodi yma a'u bwydo i mewn i'r gwaith hwnnw. AE i drafod gyda TL. | AE i ddosbarthu. PAWB i gyfrannu sylwadau.<br><br>AE i drafod gyda Tracey ac adrodd yn ôl. | |
| **Colegau Amaethyddol** | | | |
| 12 | Cytunwyd fod bwlch sgiliau'n bodoli o ran darparu hyfforddiant sgiliau cadwraeth yn y colegau amaethyddol a chytunwyd y dylid rhoi sylw i hyn.<br><br>LGHEG i geisio goleuo cynnwys y cwrs gyda ffocws ar faterion pori a llosgi. Grwpiau'r WBP i gydgysylltu a datblygu modiwl cwrs i'w gynnwys yn y cwricwlwm.<br><br>AE i benderfynu ar nifer y Colegau Amaethyddol a pherson cyswllt ar gyfer y cwrs. | <br><br>ALL<br><br>AE | |
| **Amrywiol** | | | |
| **13** | **HB i ofyn i Mike a John Rodwell helpu i ddatblygu gweledigaeth y LGHEG ar gyfer glaswelltir a gweundir** | **HB** | |

| Rhif | Gweithredu | Pwy | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| | **drwy redeg gweithdy / cwrs i aelodau'r grŵp.** | | |
| **Crynodeb o Gyfarfodydd yn y Dyfodol** | | | |
| 14 | Cyfarfod i drafod Papur Gwyrdd y NEF. AE i drefnu cyfarfod o'r is-grŵp ar gyfer mis Ionawr i'w drafod. | AE | |
| **15** | **Cyfarfod o Rwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd Ddwyrain Cymru – 16 Ebrill 2011. I drafod mapio blaenoriaeth / symud ymlaen gyda phrosiectau ayb.** | **HOLL aelodau'r grŵp** | |
| 16 | Cyfarfod Haf y LGHEG Dolydd gorlifdir Sir Faesyfed; y Bartneriaeth Dolydd Gorlifdirol (MG4) Dolydd gwair gorlifdirol (ychydig iawn yng Nghymru). AE i drafod gyda JJ.<br><br>I'w gynnal gan LlC yn y swyddfa ranbarthol yn Llandrindod. KC i holi ynghylch a oes ystafell gyfarfod ar gael unwaith fydd y dyddiad wedi'i gadarnhau. | AE<br><br>KC | |
| **17** | **Gweithdy glaswelltir corsiog De Cymru.**<br><br>**AE i drafod gyda'r Cynlluniau LBAP ac i drefnu gweithdy.** | **AE** | **RhCT i'w gynnal.** |
| 18 | Cytunwyd y dylid cynnal diwrnod Ymarfer Gorau unwaith y flwyddyn. Gwahodd partneriaid i fynychu a chyflwyno. AE a CM i drefnu diwrnod Ymarfer Gorau ym Mehefin 2012.<br><br>Os bydd yn llwyddiant, gellid cynnal digwyddiad arall yn ne Cymru yn 2013 gyda ffocws ar raglen glaswelltir Gwent. | AE/CM | |

**<u>DALIER SYLW: Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:  I'w gadarnhau</u>**